DATGANIAD I'R WASG DRAFFT
Dydd Iau 3 Mehefin 2010

LLAWENYDD YN LLANDYBIE

Anrhydeddu enillydd Tlws John a Ceridwen Hughes 2010

Heno, ar lwyfan pafiliwn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yng Ngheredigion, bydd Tlws John a Ceridwen Hughes Urdd Gobaith Cymru 2010 yn cael ei gyflwyno i Jennifer Maloney o Landybie.

Dyfernir y tlws yn flynyddol i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru ac fe'i noddir gan Gerallt a Dewi Hughes yn enw eu diweddar rieni a oedd yn flaengar iawn ym maes datblygiad ieuenctid.

Enwebwyd Jennifer Maloney gan aelodau a rhieni Adran Penrhyd a Chyngor Tref Rhydaman oedd yn awyddus i ddangos eu diolchgarwch am lafur diflino a brwdfrydedd Jennifer yn arwain yr Adran ers 34 o flynyddoedd.

Ers ffurfio'r Adran nôl yn 1976, mae cannoedd o blant wedi elwa o ddoniau Jennifer ym maes dawnsio gwerin, canu, llefaru, clocsio ac wrth gymryd rhan mewn caneuon actol. Mae Jennifer ei hun wedi bod yn cystadlu yn yr Urdd ers yn chwech oed ac mae ganddi dros dri chant o gwpanau a degau o darianau a medalau yn ei chartref yn Llandybie.

Roedd Jennifer yn awyddus i gychwyn yr Adran gan mai Saesneg oedd iaith ei chartref nôl yn 1976, ac roedd hi am i'w phlant hi a phlant eraill yr ardal gael y cyfle i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd Jennifer wybod ei bod wedi ennill y Tlws mewn noson arbennig yn Rhydaman nôl ym mis Ebrill. Roedd dros 300 o bobl wedi dod yno i roi sypreis iddi.

Meddai Jennifer:
"Fe ges i gymaint o sioc pan ffeindies i mas mod i wedi ennill. Roeddwn i wedi bod yn peintio'r tŷ y diwrnod hwnnw ac roedd paent yn dal i fod yn fy ngwallt! Pan gerddes i mewn i'r stafell a gweld criw yr adran, yr aelwyd, rhieni a chriw yr Urdd yno ro'n i methu credu. Fe es i yn dawel iawn, ac mae hynny yn hollol anarferol i mi! Yr hyn sydd wedi fy nghadw i fynd ar hyd yr holl flynyddoedd yw gweld y plant yn mwynhau. Dwi wrth fy modd yn cael rhoi rhywbeth yn ôl i'r Urdd gan fy mod i wedi elwa cymaint o'r mudiad ar hyd y blynyddoedd."

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru:
"Mae'n bleser gan yr Urdd ddyfarnu Tlws John a Ceridwen Hughes eleni i berson sydd wedi dod â chymaint o gyfleon, profiadau a llawenydd i fywydau plant ac ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn mudiadau gwirfoddol ac mae cyfraniad rhai fel Jennifer Maloney i'w cymuned ac i ddiwylliant Cymru yn amhrisiadwy."

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Thursday 3 June 2010

LLANDYBIE CELEBRATES WINNER OF THE JOHN AND CERIDWEN HUGHES MEDAL

Tonight, in a ceremony on the stage of Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion, the John and Ceridwen Hughes Medal will be awarded to Jennifer Maloney from Llandybie.

The John and Ceridwen Hughes Medal is awarded every year to honour volunteers who have contributed substantially to working with children and young people in Wales. The Medal is sponsored by Gerallt and Dewi Hughes to commemorate their parents who were great ambassadors in youth development through the medium of Welsh.

Jennifer Maloney was nominated by Adran Penrhyd's members and parents, and Ammanford Town Council, who were all keen to show their appreciation of Jennifer's work leading the Adran for 34 years.

Hundreds of children have benefited from Jennifer's expertise in folk dancing, singing, reciting, clocsio and action songs since 1976. Jennifer has been competing since she was six years old and has over 300 cups and numerous shields and medals in her home in Llandybie.

Back in 1976, Jennifer was keen to set up the Adran to give her own children, and other local children the opportunity to socialise through the medium of Welsh.

Jennifer found out that she had won the Medal in a special evening in Ammanford in April. Over 300 people gathered to surprise her with the announcement.

Jennifer says:
“I had such a shock when I heard that I’d won. I’d been decorating that day and there was still flecks of paint in my hair! When I walked into the Adran and saw all the children, the parents and the Urdd people there I couldn’t believe my eyes! I was struck dumb, which is very unusual for me! Seeing the children’s enjoyment has kept me going all these years. I’m happy to be able to give something back to the Urdd, as the organisation has given me so much over the years.”

Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru’s Chief Executive added: “The Urdd is delighted to award this year’s John and Ceridwen Hughes Medal to somebody who has given the children and young people of Carmarthenshire so many opportunities, experiences and joy. Volunteers are the back bone of all voluntary organisations and the contribution of individuals such as Jennifer Maloney to community life and Welsh culture is invaluable.”

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.